**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cyfarfod am 6.30pm, Dydd Mawrth 6 Tachwedd 2018, Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel

**COFNODION**

**Yn Bresennol:** David Rees AC (yn y gadair), Dr Dai Lloyd AC, a'r aelodau canlynol: Dr Paul Hutchings; Dr Robert Hoyle; Dr Stephen Benn; Yr Athro Paul Harrison; Yr Athro Mike Edmunds; Yr Athro Tom Crick MBE; Yr Athro Keith Smith; Dave Jones; Bob Cater; Lesley Kirkpatrick; Stephen Lawrence; Dr David Cunnah; Dr Geertje van Keulen a Leigh Jeffes.

**Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Ethol Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM**

Etholwyd David Rees AC.

**Ethol dau Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM**

Etholwyd Dr Dai Lloyd AC a Nick Ramsay AC.

**Ethol Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM**

Penodwyd y Gymdeithas Cemeg Frenhinol i weithredu fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp. Diolchodd y Cadeirydd i Leigh Jeffes am ei waith wrth gydlynu gwaith y grŵp trawsbleidiol.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/2018**

Dosbarthwyd y rhain a chytunwyd arnynt.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd gan Nick Ramsay AC, yr Athro Alan Shore, Keith Jones, Emily Bristow, yr Athro Tom Crick MBE a'r Athro Faron Moller.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018**

Roeddent wedi'u dosbarthu.

**Materion yn codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Pynciau ar gyfer Cyfarfodydd yn 2019**

Gofynnodd y Cadeirydd i bobl anfon awgrymiadau am bynciau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol at Leigh.

**Cymdeithasau Gwyddonol a Chyrff Proffesiynol - Y Wybodaeth Ddiweddaraf**

Rhoddodd cynrychiolwyr y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am eu gweithgareddau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**Adroddiad gan Dr Robert Hoyle,** Prif Swyddog Gwyddonol, Swyddfa Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru.

Rhoddodd Dr Hoyle gyflwyniad ar ddatblygiadau cyfredol ac yn y dyfodol.
Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd i Robert am ei gyflwyniad.

**Cyflwyniad: Dr Paul B. Hutchings,** Cyfarwyddwr Rhaglen Seicoleg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a Chadeirydd Cymdeithas Seicolegol Prydain yng Nghymru.

Rhoddodd Dr Hutchings gyflwyniad ar *Seicoleg yng Nghymru: Ymarfer, Ymchwil a Pholisi.*

Yn dilyn cwestiynau, diolchodd y Cadeirydd i Dr Hutchings am y cyflwyniad hwn.

**Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw fater arall.

**Dyddiadau cyfarfodydd 2019**

Dydd Mawrth, 5 Mawrth 6.30pm
Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 6.30pm
Dydd Mawrth 5 Tachwedd (CCB) 6.30pm

**Cloi'r cyfarfod**

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 20.00.